WG35.5.20

# MARWNAD,

ER COFFADWRIAETH AM

# DRI O BLANT Y DIWYGIAD,

YN

## TROEDRHIWDALAR A BULAH,

**A ymadawsant a'r Byd drwy Angau, yn Mis Mehefin, 1841;**

SEF

*Isaac Davies, Ty'nwaun; Elizabeth Jones, Castell; a Rees Williams, Tycochbach*

---

GAN ROGER JONES, LLANWRTYD.
*Brawd arall i Isaac o Dreflis.*

---

AIL ARGRAFFIAD,---PRIS CEINIOG A DIMAU.

1. Y mae angau, 'r gelyn olaf,
   Fel yn rhodio gylch y wlad;
   Lawr mae'n torri'r i'enctid hawddgar,—
   Rhaid yw gadael mam a thad.
   Fe wnaed undeb, 'rwy'n hyderu,
   Cyn wynebu lawr i'r glyn,
   A'r gwr waedodd rhwng y lladron,
   Gynt ar ben Calfaria fryn.

2. Er mor chwerw mae rhieni
   Yn galaru ar eu hol,
   Pe caent feddu perlau'r India,
   Ni ddychwelent yma'n ol:
   Maent, 'r wy'n credu, gyda'r Iesu,
   Ac yn canu gyda'r saint;
   Ni bydd neb i drag'wyddoldeb,
   All fynegu gwerth eu braint.

X205 30789,

3. Mae perth'nasau yn galaru,
O waith colli rhai'n yn wir,
Brodyr a chwiorydd hefyd,
Sydd yn ol mewn anial dir:
Ymddiriedwch yn yr Iesu—
Medr lynu'n well na brawd;
Pawb a'i caffo'n rhan mewn difri',
Nid a rheini byth yn dlawd.

4 Fel glaswelltyn, yn dra buan,
Byddwn wedi gwywo'i gyd;
Nid yw'n dyddiau, ar yr hwyaf,
Ond fel cysgod yn y byd?
'Hedeg adre'n morau 'u dyddiau
Wnaeth cyfeillion hoff a chu,
Lle maent heddyw'n canu'n uchel,
Yn Nghaersalem dawel fry.

5. Isaac Davies aeth yn mlaenaf
Maes o'r rhyfel tua thref,
Ac Elizabeth, yn fuan
Wedi'n a'i cynlynodd ef;
A Rees Williams sydd yn gorwedd,
Mewn oer annedd, gyda hwy;
Wedi gadael byd y llafur,
Ni ddychwelant yma mwy.

6. Llafur blin osodwyd ini,
I ymguro dan yr haul;
Nid oes yn y greadigaeth,
Ddim cysuron gwir i'w cael:
Fel gwreichionen yn ehedeg,
Mewn byr adeg fyny fry,
Felly'n hollol, mor naturiol,
Oll i flinder ganwyd ni.

7. Byd y gorthrymderau, ydym
Yma etto ynddo'n byw;
Ond mae teyrnas râd yn aros
Plant a phobl ffyddlon Duw;
Ond nid am ffyddlondeb gwelir
Neb o'r saint yn nheyrnas nef,
Ac nid heb ffyddlondeb safwn
Yn ei ymddangosiad Ef.

8. Ffyddlon, effro, a llafurus,
A phur wresog gyda'r gwaith,
Oedd yr i'enctyd sydd yn canu,
Heddyw'n iach ar ben eu taith;
Wedi gadael arfau rhyfel,
Ac a phalmwydd yn eu llaw
Aethant adre' drwy bob rhwystrau,
Mewn i'w gwlad yr ochr draw.

9. 'R ydym ninnau'n brisio'n gyflym,
Bob mynydyn, tua'n gwlad;
'Nawr mae'r amser ini lefain
Am gael cymmod yn y gwaed;
Mae ein hadeg yn myn'd heibio,
Mae ein dydd yn fyr a brau,
Yn dra buan gorfydd ini
Orwedd obry yn y clai.

10. Mae'n cyfeillion hoff garasom,
Pan yn rhodio'r ddaear hon,
Wedi gorfod myn'd i orwedd,
Lawr i'r ceufedd dan y don;
Yno byddant yn y graean
Oer, yn cysgu'r dawel hun,
Hyd nes cano'r udgorn olaf,
Ar ddyfodiad Mab y Dyn.

11. Os yn Nghrist y buont feirw,
Do'nt i fyny ar ei wedd,
Hwy ga'nt byth fod ar ei ddelw,
'Nol agoro'r tywyll fedd;
Eiddo Crist gyfodant gyntaf,—
Yna ninnau, y rhai byw,
Gipir fynu i'r cymmylau,
I gael cwrdd a'n Harglwydd gwiw.

12. Yna byddwn yn wastadol,
Gyda'r Arglwydd yn ein lle,
Byth heb ofni 'madael mwyach,
Oddifewn trigfanau'r ne';
Pawb yn chawreu'u haur delynau,
A choronau ar eu pen;
Dyma destun eu caniadau,—
'R gwr fu farw ar y pren.

13. Mae E'n destun hollol addas,
O fewn urddas byrth y nef,
Lle mae'r teulu oll yn canu,
Ac yn ei addoli ef;
Maent yn berffaith eu haddoliad,
Ac yn llawn o gariad Duw:
Ond er hyny, daeth yr Iesu,
Lawr i brynu dynol ryw.

14. Fe adawodd wlad gogoniant,—
Fe ddaeth lawr i'r ddaear hon:
Ca'dd ei wadu, ca'dd ei werthu,
Ca'dd ei frathu dan ei fron;
'Roedd ei gariad yno'n berwi,
Yn ei fynwes ef mor fawr,
Nes rhoi 'i fywyd ar Galfaria,
Er mwyn cadw llwch y llawr.

15. Nid wy'n ammeu mae gwrthddrychau
Cariad Iesu aeth yn mlaen;
Pawb adawsant pan yn ieuanc,—
Aethant mewn i Salem lân:
Ffyrdd yr Arglwydd sy'n y moroedd,
A'i lwybrau yn y dyfroedd mawr—
Gado'r hen a wnaeth yr angau,
Torri'r egyn mân i lawr.

16. Daethant mewn i winllan Iesu,
Pan yn moreu dyddiau'u hoes,
Cyn i'w haul dd'od yw *feridian,*
Wedi gorphen gario'r groes:
Pedwar deg a phump o flwyddi,
Dyna'r cyfrif oll yn awr,
Oedd eu hoedran gyda'u gilydd,
Pan yn gadael daear lawr.

17. Os awn etto i'w dosparthu,
Ac i'w cyfrif bob yn un,
Pan yn myn'd i'w pryddlid wely,
Ac i gysgu'r olaf hun:
Pymtheg mlwydd, mewn clir lyth'renau,
Oedd i wel'd ar Arch pob un,
Pan eu rhoddwyd lawr i orwedd,—
Dyma'r diwedd i bob dyn.

18. Mil, wyth cant, ac un a deugain,
Ydoedd oed ein Harglwydd cu,
Pan yr aethant mewn i wledda
I'r Baradwys hyfryd fry;
Mis Mehefin, cwrdd a'r terfyn
Wnaethant hwy bob un o'r tri:
Am dduwioldeb mewn prysurdeb,
Yma'n benaf oedd ei cri.

19. 'N rhwym mewn cystudd gwelwyd Isaac,
Ond o'r diwedd aeth yn rhydd,
Rhodd ffarwel i bawb o'i deulu,
Pan ddaeth y pedwarydd dydd;
Ar y chweched dydd ar hugain,
Elizabeth a gafodd wŷs;
Yn mhen deuddydd etto'n rhagor,
Hefyd fe ganlynodd Rees.

20. Cyrhaeddasant sicrwydd gobaith,
Ni raid ofni gelyn mwy;
Gwisgant byth eu gwynion ynau,
Drwy rinweddau marwol glwy:
Cyd stâd ydynt a'r angelion,
Hefyd maent yn blant i Dduw;
Er bod wedi haeddu marw,
Cant eu cadw byth yn fyw.

21. Aml teithient i'r oedfäon,
A'r ysgolion yn y byd;
Dysgu pynciau ac adnodau,
Oedd eu pleser bron i gyd:
Anfon eirchion yn y dirgel,
Ac ar gyhoedd wnaent i'r lan;
Dagrau lifau dros eu gruddiau,
'N gwaeddu 'nabod Iesu'n rhan.

22. Canu hymnau wrth tyn'd adre',
Wnaent, ac angau'n d'od yn mlaen;
Ond maent heddyw mewn gwell hwyliau,
A phereiddiach yw eu cân:
Un o honynt a ddywedai
Y dysgwyliau hyd ei fedd,
Wrth ei borth gan dd'od y deuau,
Ac a llon'd ei law o hedd.

23. A'i fraich gadarn fe a'm harwain,
Nes cyrhaeddwyf fyny fry
Mewn i'r ardal lle ni chlywir
Neb yn achwyn, "claf wyf fi."
Byth yn berffaith cyd-folianant,
Ac nis gallant farw mwy;
O, am gymhorth i weddio,
Am fyn'd yno atynt hwy.

24. Mae ein dyddiau oll yn werthfawr,
Ac yn fyr, nis gwyddom ddim,
P'un a fyddwn byw y foru,
Er bod heddyw yn ein grym:
Nerth i lefain mewn gwirionedd,
Cyn bo'n hadeg wedi myn'd,
Am adnabod Brawd fo'n glynu,
Pan yn cefnu bydd pob ffrynd.

25. Wedi myn'd i'r glyn y byddwn,
Ac ni wyddom ddim pa bryd;
Gorfod gado'r pethau welir,
A phob cysur sy'n y byd:
A gwynebu'r farn rhaid ini—
O, am grynu yn ein lle,
Fel y gallom yn ddi-wridio,
Fyned yno'i gwrdd ag E'.

26. Dydd y farn sy'n d'od yn brysur,
Ffo, bechadur, at y gwr
Ddichon ddal dy ben i fyny,
Pan yn croesi rhydiau'r dwr:
Os ei 'nabod cyn wynebu
'R hen Iorddonen ddofn, ddu,
Fe geir canu clod i'r Iesu,
'N ol myn'd i'r ardaloedd fry.

27, ’N awr ’rwy’n myn’d i roddi fyny,
Nid gwiw imi fod yn faith;
Er mae hwy sydd wedi blaenu,
Ninnau ydym ar ein taith:
Maent yn awr yn mynwes Iesu,
’R ochr draw tu fewn i’r llen;
Meddu crefydd fyddo’n arddel
Gaffom ninnau oll—Amen.

Y gwelltyn sydd yn wyrddlas ’nawr,
A wywa ac a dorir lawr;
A’i flod’yn hardd a gwymp i gyd,
A phawb raid fyn’d i’r bythol fyd.

Er tegwch a phrydferthwch gwedd,
Daw angau glâs â’i waedlyd gledd,
Ac fe rydd ini farwol glwy’,—
Rhaid myn’d, ac ni ddychwelwn mwy.

*Philip Williams, Argraffydd, Heol y Bont, Aberystwyth.*